

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS AM SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru. 'Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.


Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



**Iwan Cray**
Dirprwy Prif Swyddog Tân




# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km²)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

Cyfraddau cyflog cystadleuol -
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

Gwyliau Blynyddol hael –
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

Cynllun Hyblyg –
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

# #SERO30

# Proffil Swydd

Cyflog: Gradd 6 - £32,061 - £33,699

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

Fel gweithiwr technegol TGCh medrus iawn, byddwch yn rhan annatod o adran TGCh Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r rôl yn gofyn am hyfedredd wrth weithio o fewn amgylchedd cymorth technegol deinamig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid, lle mai'r prif nod yw darparu cefnogaeth ragorol i ddefnyddwyr terfynol tra'n harneisio technoleg yn barhaus i ysgogi atebion arloesol i heriau technoleg.

Fel Technegydd TGCh, byddwch yn cael eich neilltuo i un o'n Hadrannau TGCh arbenigol, megis Systemau Gweithredol, Systemau Busnes TGCh, Atebion TGCh, neu Ddiogelwch TGCh. Fodd bynnag, byddwch hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth ac atgyfnerthiad i dimau a chydweithwyr eraill pan fo angen.

Mae'r swydd hon yn gyfle gwych i Dechnegydd Cymorth profiadol sy'n chwilio am her newydd. Rydym yn gwerthfawrogi ymroddiad personol, arbenigedd technegol, ac awydd cryf i gyfrannu'n gadarnhaol at weithrediad ein sefydliad.

**Y Person**

Dylai ymgeiswyr cymwys a phrofiadol fod â'r gallu i weithio'n effeithiol yn annibynnol ac fel rhan o dîm o fewn ardal wledig eang. Dylai'r ymgeisydd delfrydol ddangos arbenigedd mewn cymorth TGCh a dangos angerdd gwirioneddol dros archwilio pob agwedd ar dechnoleg, gan gynnwys caledwedd a meddalwedd. Mae meddylfryd creadigol ac agwedd sy’n canolbwyntio ar y cwsmer yn hanfodol i ysbrydoli perfformiad cadarnhaol a meithrin gwelliant parhaus yn y gwasanaeth wrth fanteisio ar arbenigedd a chefnogaeth aelodau eich tîm.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Technegydd TGCh |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 6 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | Yr Adran TGCh, Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **LLEOLIAD:** | Rheolwr y Tîm TGCh |
| **YN GYFRIFOL I:** | Technegydd TGCh |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Darparu cefnogaeth TGCh i ddefnyddwyr y Gwasanaeth ar draws y sefydliad. Gweithio ar draws gwahanol dimau TGCh i ddarparu cefnogaeth yn ôl yr angen |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| 1. Darparu Cymorth TGCh neu ddatrysiadau ar gyfer materion a ddynodir i chi gan y ddesg gymorth, neu eu huwchgyfeirio | Rheolwr y Tîm |
| 2. Lle bo angen, neu pan nad oes aelodau eraill ar gael, darparu Cymorth TGCh neu ddatrysiadau ar gyfer materion wrth y ddesg gymorth, neu eu huwchgyfeirio | Rheolwr y Tîm |
| 3. Dweud wrth y ddesg gymorth am ddiweddariadau, amserlenni neu broblemau a ailddynodir, yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod y defnyddiwr yn cael yr wybodaeth lawn | Rheolwr y Tîm |
| 4. Adnabod datrysiadau TGCh ar gyfer materion y Gwasanaeth, a'u huwchgyfeirio i'r tîm perthnasol | Rheolwr y Tîm |
| 5. Cadw system y rhestr TGCh yn gyfredol o ran pob eitem newydd, pob eitem a newidir a phob eitem a ddilëir, a sicrhau bod stoc digonol yn cael ei gynnal | Rheolwr y Tîm |
| 6. Goruchwylio, cynorthwyo a chysylltu â chontractwyr allanol | Rheolwr y Tîm |
| 7. Cysylltu â chyflenwyr allanol, yn ôl y gofyn, gan gynnwys prynu, dosbarthu a materion gwarant | Rheolwr y Tîm |
| 8. Mynd i'r afael â'r holl ofynion cadw tŷ, gan gynnwys archwiliadau diogelwch ar gyfer y gweithdy TGCh, ystafelloedd y gweinydd yn y Pencadlys, a'r Ystafelloedd TGCh ledled y Gwasanaeth, fel y dynodir i chi | Rheolwr y Tîm |
| 9. Ymgymryd â/helpu gyda'r broses o gyfrif stoc Ariannol Diwedd y Flwyddyn yr Adran TGCh | Rheolwr y Tîm |
| 10. Arwain a chynorthwyo gyda gwaith prosiect, yn ôl y gofyn, ledled yr holl dimau | Rheolwr y Tîm |
| 11. Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chydgysylltu prosiectau TGCh | Rheolwr y Tîm |
| 12. Cynnal gwiriadau rheolaidd ar bob cerbyd y mae eich tîm yn gyfrifol amdano neu gerbydau eraill y byddwch yn eu defnyddio am unrhyw gyfnod, gan gynnwys cofnodion tanwydd a milltiroedd y cerbydau hynny. | Rheolwr y Tîm |
| 13. Sicrhau cyflwr da a thaclusrwydd cyffredinol y cerbydau adrannol a neilltuwyd i'ch tîm. | Rheolwr y Tîm |

| | |
|---|---|
| 14. Sefydlu, cefnogi a ffurfweddu offer Clyweledol ar draws ardal y Gwasanaeth. | Rheolwr y Tîm |

**Cyfrifoldebau'r Tîm**

Gall y rôl dechnegol olygu gweithio'n barhaol neu dros dro yn un o'r timau canlynol yn yr adran TGCh ar gais y Pennaeth TGCh neu ei ddirprwy. Yn dibynnu ar y tîm cyfredol, bydd gan y technegydd a ddynodir i'r rôl hon y cyfrifoldebau canlynol, a bydd yn gallu cyflawni'r tasgau penodol yn y timau eraill, er i raddau llai.

**Manylion y Tîm Cymorth Busnes**

| | |
|---|---|
| 1. Paratoi, gosod a chyflunio Pwyntiau Mynediad i'r WiFi, Switshis, waliau tân a seilwaith arall y rhwydwaith, gan gynnwys cyfluniadau DHCP, Radius ac IP ym Mhencadlys y Gwasanaeth | Y Rheolwr TGCh |
| 2. Gosod socedi, raciau a chyfarpar cysylltiedig yn ddiogel ac yn daclus, yn unol â safonau'r adran TGCh neu'r Gwasanaeth. | Y Rheolwr TGCh |
| 3. Darparu cymorth meddalwedd bwrdd gwaith a gwasanaeth cynnal a chadw cyfrifiaduron i staff y Pencadlys, a hynny o bell ac wyneb yn wyneb | Y Rheolwr TGCh |
| 4. Gosod, cyflunio a chynnal a chadw cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi, ffonau symudol, ffonau VOIP, dangosyddion amlswyddogaeth, argraffyddion a dyfeisiau eraill | Y Rheolwr TGCh |
| 5. Helpu i ddarparu prosiectau newydd o'r tîm datblygu i staff y Pencadlys a'r staff cymorth | Y Rheolwr TGCh |
| 6. Cynorthwyo i osod a chyflunio Raciau a Gweinyddion | Y Rheolwr TGCh |
| 7. Cynorthwyo i ddatblygu a chyflunio systemau adrannol y Pencadlys | Y Rheolwr TGCh |
| 8. Defnyddio offer lleoli a delweddu i gyflunio cyfrifiaduron, gliniaduron ac argraffyddion | Y Rheolwr TGCh |
| 9. Ymchwilio i systemau a meddalwedd newydd a’u nodi ar gyfer y tîm systemau Busnes a defnyddwyr TGCh cyffredinol. | Y Rheolwr TGCh |

**Manylion y Tîm Gweithredol**

Nodwch: Efallai y bydd yn ofynnol i'r tîm hwn deithio'n helaeth ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal ag aros dros nos o bryd i'w gilydd.

| | |
|---|---|
| 1. Darparu help a chymorth i ddefnyddwyr y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd, yn ôl y gofyn | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 2. Ymweld â'r Ardaloedd Rheoli yn rheolaidd, fel y pennir gan reolwr y tîm neu'r Pennaeth TGCh, a hynny er mwyn darparu cymorth a chyngor rhagweithiol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 3. Darparu Cymorth TGCh, yn bennaf ar gyfer y gorsafoedd, yr ardaloedd rheoli, y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd, Coed-yr-iarll a'r systemau gweithredol yn y Pencadlys | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 4. Darparu cymorth i bersonél y system ar ddyletswydd yn ôl galw yn ystod eu cyfnod ymarfer, a hynny yn ôl y rota neu fel y pennir gan y Rheolwr Systemau Gweithredol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 5. Ymweld â gorsafoedd i wneud gwaith cynnal a chadw, gosod a chyflunio TGCh, yn ôl yr angen | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 6. Paratoi, gosod a chyflunio Pwyntiau Mynediad i'r WiFi, Switshis, waliau tân, ceblau a seilwaith arall y rhwydwaith, gan gynnwys cyfluniadau DHCP, Radius ac IP mewn gorsafoedd ac ardaloedd rheoli | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 7. Gosod socedi, raciau a chyfarpar cysylltiedig yn ddiogel ac yn daclus, yn unol â safonau'r adran TGCh neu'r Gwasanaeth. | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 8. Gosod, cyflunio a chynnal a chadw cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi, ffonau symudol, ffonau VOIP, dangosyddion amlswyddogaeth, argraffyddion a dyfeisiau eraill | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 9. Darparu a chyflenwi hyfforddiant i ddefnyddwyr yn y gorsafoedd a'r ardaloedd rheoli, yn ôl y gofyn | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 10. Darparu arweiniad a help i gefnogi gweithdrefnau TGCh yr orsaf, gan gynnwys y defnydd o Office 365 a pholisïau Cyfrineiriau | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 11. Cynorthwyo i gefnogi a datrys problemau gyda'r offer cynnull yn yr orsaf | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 12. Profi ac adnewyddu systemau wrth gefn batri mewn gorsafoedd ac ardaloedd rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 13. Cyflunio, cynnal a chyflenwi dyfeisiau a systemau newyddi i rybuddio am alwadau, gan gynnwys yr hyfforddiant cysylltiedig a allai fod yn ofynnol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |

| | |
|---|---|
| 14. Cynorthwyo i gefnogi a datrys problemau gyda chaledwedd a meddalwedd y Tîm Amlddisgyblaethol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 15. Cynorthwyo i gefnogi a datrys problemau gyda systemau cysylltiadau radio yr orsaf | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 16. Cynorthwyo i gefnogi a datrys problemau gyda meddalwedd a chaledwedd TGCh ar y Cerbyd Rheoli Digwyddiadau | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 17. Cynorthwyo i gefnogi a datrys problemau gyda chysylltiadau cyfathrebu â'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 18. Cynorthwyo i gefnogi a datrys problemau gyda dyfeisiau a sianelu cyfathrebu Airwave ac ESN | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 19. Helpu i ddarparu prosiectau newydd o'r tîm datblygu i'r staff gweithredol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 20. Cynorthwyo gydag asiantaethau partner lle bo arnynt angen cysylltiad technegol â seilwaith ein gwasanaeth | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 21. Defnyddio offer lleoli a delweddau a meddalwedd i gyflwyno nodweddion, meddalwedd neu gywiriadau newydd i'r cyfrifiaduron a ddefnyddir gan y Personél Gweithredol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 22. Sicrhau bod unrhyw ardaloedd gwaith, faniau gwaith neu storfeydd yn cael eu cadw'n daclus a'u rheoli'n dda, a bod unrhyw sbwriel yn cael ei glirio | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 23. Sicrhau bod unrhyw ardaloedd gwaith, faniau gwaith neu storfeydd yn cael eu cadw'n daclus a'u rheoli'n dda, a bod unrhyw sbwriel yn cael ei glirio | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 24. Darparu cymorth TG llinell gyntaf ac o bell i'r Personél Gweithredol | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 25. Cyflwyno, cefnogi, datrys problemau a chynnal a chadw systemau cyfathrebu hollbwysig ar draws yr ystâd weithredol, er mwyn sicrhau nad yw rôl y diffoddwr tân a'r cyd-ymatebwyr yn cael ei pheryglu a bod modd cyflawni swyddogaethau pwysig o ran risg. | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |
| 26. Gyda'r hyfforddiant addas, dadosod, gosod a chefnogi offer cyfathrebu hanfodol a diogel ar beiriannau tân a cherbydau ymateb. | Rheolwr Systemau Gweithredol TGCh |

**Manylion y Tîm Datblygu**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Datrys problemau busnes gyda datrysiadau TGCh | Y Rheolwr Datblygu TGCh |
| 2. | Ymchwilio'n ofalus i opsiynau sydd ar gael ar gyfer datrysiadau, a'u cofnodi | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 3. | Gwneud penderfyniadau da ynghylch ymarferoldeb a chost datrysiadau arfaethedig | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 4. | Gwerthuso cynnyrch newydd gan ddefnyddio gweithdrefn werthuso gadarn | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 5. | Llunio canllawiau arfer gorau i gefnogi'r broses o gyflwyno meddalwedd a systemau newydd | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 6. | Cynorthwyo i gyflwyno a rhoi hyfforddiant ar systemau a meddalwedd newydd | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 7. | Sicrhau bod systemau a meddalwedd newydd yn cael eu gwerthuso mewn modd sy'n 'Cydymffurfio â'r Broses Gaffael' – gan gynnwys mewn perthynas â'r GDPR, EIA, Prynu, ac ati | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 8. | Darparu cymorth TG llinell gyntaf ac o bell ar gyfer systemau a meddalwedd newydd yn ystod y cyfnod cyflwyno | Rheolwr Prosiectau TGCh |
| 9. | Cysylltu â defnyddwyr o fewn y gwasanaeth i wybod beth yw eu gofynion technegol, ymchwilio a gwerthuso atebion posibl a datblygu adroddiadau'n amlinellu argymhellion a dewisiadau amgen technegol. | Y Rheolwr Datblygu TGCh |

**Manylion y Tîm Diogelwch**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cefnogi'r Rheolwr Diogelwch i gyflwyno gweithdrefnau diogelwch newydd | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 2. | Mynd ati mewn modd rhagweithiol i adolygu materion diogelwch a gwneud argymhellion | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 3. | Gosod nodweddion diogelwch newydd, cywiriadau a diweddariadau ar weinyddion, byrddau gwaith, gliniaduron a ffonau symudol i sicrhau gwasanaeth diogel | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 4. | Helpu i gyflwyno polisïau diogelwch newydd neu i sicrhau cydymffurfedd â safonau diogelwch | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 5. | Sicrhau bod gweithdrefnau parhad busnes ac adferiad yn dilyn trychineb yn cael eu profi a'u cofnodi | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 6. | Ymgyfarwyddo â'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelwch a allai effeithio ar y Gwasanaeth | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 7. | Helpu i adolygu a diweddaru Dogfen Bolisi Diogelwch Gwybodaeth a chynlluniau Parhad Busnes y Gwasanaeth | Rheolwr Diogelwch TGCh |
| 8. | Bwrw golwg rheolaidd dros offer diogelwch a chydymffurfedd, a'u monitro, gan gynnwys y rheiny a ddarperir trwy Office 365, yr adroddiadau AV a'r Systemau Canfod Ymyrraeth | Rheolwr Diogelwch TGCh |

**Cyfrifoldebau Cyffredinol**

| | |
|---|---|
| 1. Helpu i sicrhau bod yr CLG ar gyfer yr adran yn cael ei fonitro, ac y glynir wrtho lle bo hynny'n briodol ar gyfer eich rôl | Rheolwr y Tîm |
| 2. Mynd ar gyrsiau hyfforddiant technegol a chyrsiau ymgyfarwyddo â systemau, yn ôl y gofyn (gan gynnwys aros dros nos pan fo hynny'n ofynnol) | Rheolwr y Tîm |
| 3. Cynrychioli'r adran TGCh mewn cyfarfodydd, gweithgorau a grwpiau tebyg, fel sy'n ofynnol gan arweinydd eich tîm neu'r Pennaeth TGCh | Rheolwr y Tîm |
| 4. Sicrhau bod pob rhan o'r swyddfa, y gweithdy a'r ardaloedd storio yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, a bod yr holl stoc wedi'i labelu'n gywir a, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei waredu'n gyflym trwy bolisïau'r Gwasanaeth | Rheolwr y Tîm |
| 5. Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r Ddogfen Bolisi Diogelwch Gwybodaeth, a bod yr holl waith a wneir yn cael ei gwblhau yn unol â'r polisi a pholisïau eraill y Gwasanaeth, er enghraifft polisïau Prosesu Data | Y Pennaeth TGCh |
| 6. Cydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch a phob polisi arall sy'n berthnasol i gyflogaeth gan y Gwasanaeth | Y Pennaeth TGCh |
| 7. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â chyfrifoldebau adrannol ehangach, a hynny'n unol â chyfarwyddyd eich rheolwr llinell neu'r Pennaeth TGCh | Rheolwr y Tîm / Y Pennaeth TGCh |
| 8. Sicrhau bod unrhyw geisiadau am gymorth TGCh yn cael eu cofnodi i'r ddesg gymorth TGCh | Rheolwr y Tîm |
| 9. Helpu i ddatblygu, lledaenu a hyrwyddo arferion da sy'n ymwneud â TG ledled y sefydliad, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â diogelwch a thrwyddedu meddalwedd | Rheolwr y Tîm |
| 10. Meddu ar drwydded yrru lawn. Yn gallu gyrru bob amser mewn modd diogel a sicr | Rheolwr y Tîm |
| 11. Helpu i sicrhau bod amcanion cyfredol y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni, ac yr adroddir arnynt | Y Pennaeth TGCh |
| 12. Helpu gydag unrhyw archwiliadau o'r adran, y systemau neu Feddalwedd, yn ôl y gofyn | Y Pennaeth TGCh |
| 13. Cwblhau dysgu hunangyfeiriedig rheolaidd, fel sy'n ofynnol ar gyfer eich rôl neu yn ôl cyfarwyddyd y Pennaeth Adran, a hynny er mwyn sicrhau eich datblygiad proffesiynol parhaus | Y Pennaeth TGCh |

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

## MANYLEB Y PERSON

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD** | Technegydd TGCh |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADDFA** | Gradd 6 |
| **ADRAN** | Yr Adran TGCh |
| **GWIRIAD GDG** | Safonol |

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â phob un o'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn cwrdd â phob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | 5 TGAU gradd C neu uwch (yn cynnwys Saesneg a Mathemateg) neu gyfwerth | **Hanfodol*** | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| | Cymwysterau Safon Uwch a/neu Radd mewn pwnc sy'n ymwneud â TGCh | Dymunol | |
| | Trwydded Yrru lawn | **Hanfodol*** | |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth dda am sefydlu perifferolion systemau cyfrifiadurol a rhwydweithiau mewn sefydliadau bach a chanolig, yn ogystal â dealltwriaeth dda o hyn | **Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |
| | Gwybodaeth am ffurfweddu a chynnal a chadw caledwedd a pherifferolion sy'n ymwneud â chyfrifiaduron | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth dda am weithdrefnau gosod a ffurfweddu pecynnau meddalwedd | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth dda am ffurfweddu a chomisiynu rhwydweithiau | **Hanfodol*** | |
| | Dealltwriaeth dda o gyfeiriadau, llwybro a ffurfweddu IPv4 | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth gyfredol dda am derminoleg TGCh gyffredinol, technoleg newydd, dyfeisiau rhwydweithiau a systemau menter | **Hanfodol*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwybodaeth dda am ddiogelwch rhwydweithiau, systemau a data TGCh | **Hanfodol*** | |
| | Y gallu i ddefnyddio meddalwedd swyddfa gyffredinol, er enghraifft Word ac Excel, i lefel brofiadol | **Hanfodol*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | 3 blynedd neu ragor o brofiad o ddarparu cymorth a ffurfweddu TGCh 'ymarferol' mewn sefydliad bach neu ganolig (50 neu ragor o ddefnyddwyr cyfrifiaduron), a hynny'n llawn-amser yn eich prif rôl | **Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |
| | Profiad o ddyletswyddau sy'n ymwneud â TG, yn cynnwys ffurfweddu a chomisiynu caledwedd cyfrifiaduron personol | **Hanfodol*** | |
| | Profiad o leoli a gosod meddalwedd a pherifferolion cysylltiedig | **Hanfodol*** | |
| | Profiad o weithio mewn amgylchedd LAN/WAN | Dymunol | |
| | Dealltwriaeth o wefannau a thechnolegau cysylltiedig | **Hanfodol*** | |
| | Deall cronfeydd data mewn amgylchedd busnes | Dymunol | |
| | Dangos gallu i ymchwilio i gynhyrchion a gwasanaethau a gwerthuso addasrwydd | **Hanfodol*** | |
| | Y gallu i gofnodi atebion ac ysgrifennu adroddiadau | **Hanfodol*** | |
| | Y gallu i brofi meddalwedd a systemau'n unol â fframwaith penodol, ac i nodi'r canlyniadau'n gywir | Dymunol | |
| | Yn gallu datrys problemau ynglŷn â chaledwedd, meddalwedd a rhwydweithiau mewn modd effeithiol | **Hanfodol*** | |
| **Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd/Personol** | Y gallu i weithio i derfynau amser tyn | **Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |
| | Y gallu i weithio mewn modd effeithiol, a hynny mewn amgylchedd prysur | **Hanfodol*** | |
| | Y gallu i weithio mewn tîm | **Hanfodol*** | |
| | Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, weithiau ar eich pen eich hun, y tu hwnt i amgylchedd y swyddfa | **Hanfodol*** | |
| | Agwedd frwdfrydig ac ymrwymedig at ddarparu gwasanaeth o safon a datrysiadau priodol | **Hanfodol*** | |
| | Y gallu i ddysgu'n gyflym, meddwl mewn modd rhesymegol a deall cysyniadau technegol | **Hanfodol*** | |
| | | **Hanfodol*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn gallu gweithio oriau hyblyg, ynghyd â gwneud rhywfaint o waith gyda'r nos, ac weithiau bydd gofyn i chi dreulio ychydig nosweithiau oddi cartref | **Hanfodol*** | |
| **Cyfathrebu** | Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg<br><br>Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg<br><br>Y gallu i gyfleu pynciau technegol yn dda a gyda chywirdeb | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** Safonol

**CYFIAWNHAD:** ........................................................................................................

**PARATOWYD:**

**DYDDIAD ADOLYGU:**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 27 Tachwedd 2025 am 16:30yp

Mae’r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae’n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi’r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio’r rhestr fer yn cynnwys asesu’r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau’r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu’r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o’r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i’r adran sy’n llunio’r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o’i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy’n llunio’r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe’ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i’r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i’r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i’w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o’r ddogfennaeth y mae’n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw’n berthnasol i’r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk